Lawrlwytho

Cynnal tri i bedwar sesiwn

Sesiwn un: Beth ydw i'n feddwl?

(Tua un awr)

Cysylltiadau i'r Cwricwlwm

Addysg Bersonol, Cymdeithasol a Iechyd/Datblygiad Personol a Chymdeithasol/ABCh: Perthnasau; Bywyd iach.
Dinasyddiaeth: Hawliau a Chyfrifoldebau; Meddwl Beirniadol; Eiriolaeth a Chynrychiolaeth.
Gwyddoniaeth: Defnydd ac oblygiadau gwyddoniaeth.

Deilliannau dysgu

- **Bydd pob myfyriwr yn:** deall fod bod yn rhoddwr gwaed, organ, meinwe neu mêr esgyrn yn fater pwysig iddynt ei ystyried, gan y bydd pobl yn marw heb gyfraniad rhoddwyr gwirfoddol.
- **Bydd y rhan fwyaf o fyfyrwyr yn:** gwybod hefyd fod prinder rhoddwyr yn y Deyrnas Unedig. Byddant yn gwybod y gall pobl roi tra'n fyw neu wedi marw.
- **Bydd rhai myfyrwyr yn:** deall rhai o'r materion ehangach yn ymwneud a rhoi a derbyn gwaed, organau, meinwe a mêr yr esgyrn hefyd.

Gweithgaredd agoriadol (10 Munud)

- Dechrau trwy wylio'r ffilm ragarweiniol ar y wefan yn www.giveandletlive.co.uk. Mae'r wefan hefyd yn cynnwys Corff Rhoddwr rhyngweithiol, i'w archwilio fel dosbarth ar y bwrdd gwyn neu mewn grwpiau llai.
- Mae tudalennau 22-24 o'r Pecyn Athrawon yn darparu ffeithiau a gwybodaeth allweddol am roi tra'n fyw ac wedi marwolaeth. Llungopïwch neu lawrlwythwch rai neu bob un o'r tudalennau hyn a defnyddio'r pwyntiau i ysgogi trafodaeth.
- Gallwch hefyd ddangos rhai o'r straeon go iawn sydd ar y wefan ac ar y Cardiau myfyrwyr.

Gweithgaredd unigol/grŵp (15 Munud)

- Heriwch y myfyrwyr i gwblhau'r cwis gwir neu gau ar Daflen gwaith 1.
- Trafodwch yr atebion a gofyn i'r myfyrwyr ystyried beth allai atal rhywun maent yn adnabod rhag cofrestru fel rhoddwr. Pa fath o ddadleuon neu bryderon maent wedi eu clywed am roi?
- Yw unrhyw un o'r myfyrwyr yn credu y gallant ystyried bod yn rhoddwr? Pa resymau allant roi dros fod eisiau – neu beidio bod eisiau – rhoi?
- Esboniwch i'r dosbarth y byddant yn gweithio mewn grwpiau yn ystod y tair wythnos/gwersi nesaf i ddysgu mwy am roi, a beth mae eraill yn wybod am y mater. Byddant yn gweithio tuag at rhoi cyflwyniad byr – o bosibl mewn gwasanaeth – i eraill yn yr ysgol ynglŷn a phwysigrwydd rhoi.

Cynnal tri i bedwar sesiwn

Sesiwn un: Beth ydw i'n feddwl?
(Parhad)



Gweithgaredd grŵp (25 Munud)

- Mae'r myfyrwyr yn gweithio mewn grwpiau o rhwng pedwar a chwech. Rhowch **Gerdyn myfyriwr** gwahanol i bob grŵp. Mae pob cerdyn yn cynnwys stori go iawn am agweddau o roi yn ystod bywyd neu wedi marwolaeth. Bydd y cardiau'n tynnu sylw'r grŵp at y materion allweddol ac yn eu cefnogi wrth iddynt ffurfio a lleisio eu barn. Gellir dod o hyd i'r straeon go iawn ar www.giveandletlive.co.uk hefyd.
- Dylai'r grwpiau gwblhau'r gweithgareddau ar y **Cardiau myfyrwyr**, sy'n cynnwys pwnc trafod a syniadau ar gyfer chwarae rôl. Os yw'r trafodaethau'n anodd iddynt, dosbarthwch gopïau o'r **cerdyn cefnogaeth atodol**.
- Rhowch 10 i 15 munud i bob grŵp lunio'u barn.
- Caniatewch amser i bob grŵp adrodd yn ôl ar eu casgliadau i weddill y dosbarth ac ar gyfer sesiwn holi ac ateb byr.

Casgliadau (10 Munud)

- Edrych eto ar gasgliadau'r myfyrwyr am roi a beth yw eu barn.
- Esbonio mai'r dasg nesaf fydd i ganfod beth mae eraill yn wybod a sut maent yn teimlo am roi gwaed, organau, meinwe a mêr esgyrn.

Gweithgareddau estynnol/gwaith cartref (10 Munud)

- Gofyn i'r myfyrwyr ymweld â gwefan www.giveandletlive.co.uk i ganfod sut i gofrestru fel rhoddwr a pha rannau o'r corff y gellir rhoi tra'n fyw ac wedi marw.
- Myfyrwyr yn paratoi dalen ffeithiau i hysbysu eraill am roi. Yna gallant ysgrifennu paragraff ar y canlynol: 'Mae'r rhan fwyaf yn credu fod rhoi yn beth da, ond dim ond cyfran fechan o'r boblogaeth sy'n cofrestru i fod yn rhoddwr. Pam fod hyn yn wir yn eich barn chi?'. Mae **Taflen gwaith 1** yn cefnogi'r gweithgaredd hwn.
- Chwaraewch y **gêm Bingo'r Corff rhyngweithiol** ar y wefan. Mae'r gweithgaredd hwn yn brawf o beth mae'r myfyrwyr wedi ddysgu yn y wers.

Cynnal tri i bedwar sesiwn

Taflen gwaith 1 – Beth ydw i'n feddwl?

Beth ydych chi'n wybod am roi?
Cwblhewch y cwis Gwir neu Gau hwn i weld.

Gwir neu Gau

1. Mae tua hanner poblogaeth y Deyrnas Unedig yn rhoi gwaed.
   Gwir/Gau
2. Wedi marw, gall un unigolyn helpu cymaint ag wyth o bobl trwy roi ei organau.
   Gwir/Gau
3. Mae'n bwysig trafod eich dymuniad i fod yn rhoddwr organau gyda'ch teulu.
   Gwir/Gau
4. Yn y Deyrnas Unedig, mae pobl yn marw tra'n aros am drawsblaniad mêr esgyrn.
   Gwir/Gau
5. Yn y Deyrnas Unedig, fel arfer mae gwerth llai nag wythnos o gyflenwad gwaed mewn banciau gwaed.
   Gwir/Gau
6. Dywed naw o bob deg eu bod yn cefnogi'r syniad o roi organau, ond dim ond dau o bob deg sydd wedi ymuno â Chofrestr Rhoddwyr y GIG.
   Gwir/Gau
7. Mae'ch corff yn cynnwys tua dwy litr o waed.
   Gwir/Gau
8. Rhaid i chi farw mewn ysbyty i fod yn rhoddwr meinwe.
   Gwir/Gau
9. Ar hyn o bryd, mae dros 9,000 o bobl yn y Deyrnas Unedig angen trawsblaniad organ.
   Gwir/Gau
10. Mae'r nifer o organau a roddir wedi marwolaeth wedi cynyddu yn y blynyddoedd diwethaf.
    Gwir/Gau

(Atebion ar dudalen 2 Cynnal tri i bedwar sesiwn)

Creda'r rhan fwyaf fod rhoi yn beth da, ond dim ond ychydig iawn sy'n ymuno â'r gofrestr rhoddwyr. Pam fod hyn yn wir yn eich barn chi?.

Cynnal tri i bedwar sesiwn

Sesiwn dau: Beth mae pobl eraill yn feddwl?

(Tua un awr)

Cysylltiadau i'r Cwricwlwm

Addysg Bersonol, Cymdeithasol a Iechyd/Datblygiad Personol a Chymdeithasol/ABCh: Bywyd iach.
Dinasyddiaeth: Meddwl Beirniadol; Eiriolaeth a Chynrychiolaeth.

Deilliannau dysgu

- **Bydd pob myfyriwr yn:** dechrau ystyried rhai o'r dylanwadau ar benderfyniad pobl i roi neu beidio; gwybod pa gwestiynau allweddol i'w cynnwys ar holiadur i gael barn pobl am roi.
- **Bydd y rhan fwyaf o fyfyrwyr yn:** deall dylanwad credoau crefyddol a diwylliannol ar y penderfyniad i fod yn rhoddwr.
- **Bydd rhai myfyrwyr yn:** ffurfio dadl ddarbwyllol i annog pobl i fod yn rhoddwyr.

Gweithgaredd agoriadol (10 Munud)

- Adolygu'r prif bwyntiau o Sesiwn un, a rhestru rhai o'r ffeithiau a barnau a drafododd y myfyrwyr yn y sesiwn flaenorol.
- Ydynt wedi dysgu mwy ers y tro diwethaf? Ydynt, er enghraifft, wedi siarad â'u rhieni neu ffrindiau am roi, neu wedi ymweld â'r wefan?
- Chwaraewch y **gêm Bingo'r Corff rhyngweithiol** ar y wefan i'w hatgoffa o'r prif bwyntiau.
- Esboniwch mai prif dasg y sesiwn hon yw i ddrafftio holiadur i ganfod beth mae pobl eraill yn yr ysgol ac/neu eu teulu a ffrindiau yn feddwl am roi.

Gweithgaredd i'r dosbarth cyfan (15 Munud)

Cyn i'r myfyrwyr ddechrau meddwl am beth maent eisiau ddysgu o'u holiaduron, treuliwch ychydig funudau yn ystyried y canlynol:

- Sut maent yn credu mae eu cynghreiriaid/rhieni yn teimlo am roi gwaed a mêr esgyrn yn ystod eu hoes ac organau a meinwe wedi marwolaeth?
- Oes yna unrhyw gredoau crefyddol neu ddiwylliannol sy'n atal rhoi/derbyn gwaed, organau, meinwe neu fêr esgyrn? Mae yna **gyflwyniad PowerPoint** yn y Parth Athrawon sy'n esbonio safbwynt y prif grefyddau o ran rhoi.
- Pa ragdybiaethau allwn wneud, e.e. efallai fod rhai pobl ofn nodwyddau ac felly byddant ofn rhoi gwaed; efallai bydd eraill yn poeni am gofrestru fel rhoddwyr organau a meinwe rhag ofn na fydd staff meddygol yn gwneud cymaint o ymdrech i achub eu bywyd o ganlyniad.
- Mae yna anghysondeb o ran agweddau positif tuag at roi a'r nifer gweddol isel o bobl sy'n mynd ati i roi gwaed neu gofrestru fel rhoddwyr. Beth all myfyrwyr awgrymu allai helpu perswadio eu cyfoedion i roi gwaed am y tro cyntaf neu ymuno â Chofrestr Rhoddwyr y GIG? Pa mor effeithiol yw ymgyrchoedd hysbysebu (e.e. radio, teledu, ar-lein) o gymharu â phosteri, llythyron personol, astudiaethau achos go iawn neu raglen addysg megis hon, er enghraifft?

Cynnal tri i bedwar sesiwn

Sesiwn dau: Beth mae pobl eraill yn feddwl?
(Parhad)

Gwaith grŵp (30 Munud)

- Mae myfyrwyr yn gweithio mewn grwpiau o bedwar i chwech i ddrafftio holiadur. Mae pob grŵp yn rhestru hyd at ddeg cwestiwn yr hoffent ofyn a hefyd yn dyfeisio system gofnodi, er enghraifft, 'Ia/Na/Ddim yn Gwybod'. Annog y myfyrwyr i gynnwys y mathau o gwestiynau sy'n tynnu sylw at agweddau a theimladau tuag at roi. Er enghraifft, ar y lefel fwyaf syml, efallai byddant yn gofyn, 'Ydych chi'n credu fod rhoi gwaed neu organ yn beth da? Pam/Pam Ddim?' Neu, 'A fyddech yn ystyried bod yn rhoddwr?' Gallant hefyd gynnwys cwestiynau mwy dadleuol megis, 'Ydych chi'n credu y dylid talu pobl i fod yn rhoddwyr?' neu 'A ddylai fod yn ofyniad cyfreithiol i bob oedolyn fod yn rhoddwr?' Gellir lawrlwytho cwestiynau enghreifftiol o'r Parth athrawon.
- Bydd Taflen gwaith 2 yn cefnogi'r myfyrwyr wrth iddynt gynllunio trwy arddangos cwestiynau agored a chaeedig a thrwy ofyn iddynt feddwl am y math o wybodaeth yr hoffent gynnwys mewn cyflwyniad darbwyllol.
- Dylai'r grwpiau hefyd benderfynu ar sampl a maint eu harolwg, er enghraifft, myfyrwyr eraill yn yr un flwyddyn, blwyddyn iau/hŷn, ffrindiau, rhieni, athrawon. Awgrymwch eu bod yn cyfyngu'r nifer o ymatebwyr i bump.
- Yn amlwg, ni ellir ystyried maint y sampl i fod yn derfynol na'n sampl cynrychioladol. Y syniad yw i gasglu ychydig o wybodaeth sylfaenol am grŵp bychan o bobl sy'n arwyddocaol i'r myfyrwyr.
- Caniatewch amser i bob grŵp gynnig eu tri chwestiwn gorau a chysodi rhestr o ddeg y mae'r dosbarth yn cytuno ddylai ymddangos ar yr holiadur terfynol.

Casgliadau (5 Munud)

- Sicrhewch fod y myfyrwyr yn deall pwy fyddant yn holi a sut fyddant yn gofyn y cwestiynau. Er enghraifft, gallant gyflawni cyfweliadau wyneb-i-wyneb neu efallai anfon e-bost gyda'r cwestiynau at nifer o ffrindiau neu aelodau o'r teulu.

Lawrlwytho

Cynnal tri i bedwar sesiwn

Taflen gwaith 2 – Beth mae pobl eraill yn feddwl?

Gofyn cwestiynau agored a chaeedig

Gellir ateb cwestiynau caeedig gydag 'ie' neu 'na'.

C. 'Ydych chi erioed wedi ystyried yr angen am roddwyr?'

A. 'Do'.

Mae cwestiynau agored yn rhoi cyfle i'r unigolyn roi ateb llawn yn eu geiriau eu hunain.

C. 'Beth fyddai'n eich annog i ymuno â chofrestr mêr esgyrn?'

A. 'Pe byddwn yn adnabod rhywun arall oedd wedi, neu rywun oedd angen trawsblaniad.'

Ysgrifennwch ddau gwestiwn agored ar gyfer eich arolwg.

1

2

Ysgrifennwch ddau gwestiwn caeedig ar gyfer eich arolwg.

1

2

Bydd slogan dda yn annog pobl i gymryd rhan. Beth ydych chi'n feddwl o 'Give and Let Live'? Ysgrifennwch slogan yn seiliedig ar fater a godwyd yn un o'ch cwestiynau.

Lawrlwytho

Cynnal tri i bedwar sesiwn

Sesiwn tri: Dadansoddi casgliadau'r arolwg

(Tua un awr)

Cysylltiadau i'r Cwricwlwm

Dinasyddiaeth: Meddwl Beirniadol; Eiriolaeth a Chynrychiolaeth.
TGCh: Darganfod atebion; Cyfnewid a rhannu gwybodaeth.

Deilliannau dysgu

- **Bydd pob myfyriwr yn:** cyflwyno eu canlyniadau i gronfa ddata ac yn ysgrifennu crynodeb fer o'u casgliadau.
- **Bydd y rhan fwyaf o fyfyrwyr yn:** adlewyrchu ar ansawdd eu cwestiynau ac ymatebion; dadansoddi a dehongli data.
- **Bydd rhai myfyrwyr yn:** rhagweld patrymau ymateb ymysg ymatebwyr ac yn adlewyrchu ar eu rhagdybiaethau o gymharu â'r canlyniadau.

Gweithgaredd agoriadol (10 Munud)

- Wedi casglu data o'u grŵp sampl, bydd angen i'r myfyrwyr dreulio tipyn o'r wers hon yn gosod y canlyniadau mewn cronfa ddata a dadansoddi'r prif gasgliadau.
- Cyn i'r myfyrwyr gyflwyno'r data, gofynnwch iddynt ystyried eu hargraffiadau o gyflawni'r arolwg trwy ofyn cwestiynau megis:
  - Allai'r ymatebwyr ddeall y cwestiynau neu oeddynt yn rhy amwys?
  - Yn gyffredinol, oedd pobl yn barod i gydweithio ac a diddordeb yn nhestun yr arolwg?
  - Ydynt yn disgwyl canfod unrhyw batrymau ymateb wedi iddynt gyflwyno a dadansoddi eu data? Er enghraifft, ydynt yn rhagweld gwahaniaeth barn rhwng y rhywiau neu grwpiau oedran?

Gwaith grŵp (20 Munud)

- Dylai pob grŵp gyflwyno ei ganlyniadau i gronfa ddata y dosbarth. Gellir creu hyn yn Excel.
- Nesaf, dylai pob grŵp ddechrau dadansoddiad o'i gasgliadau. Dylent gofnodi gwybodaeth allweddol megis:
  - cyfanswm maint y sampl
  - dyddiad yr arolwg
  - cyfartaledd oedran ymatebwyr
  - nifer o ddynion a menywod.
- Mae'r myfyrwyr yn ystyried pob cwestiwn yn ei dro, ac yn ysgrifennu crynodeb fer o'r prif gasgliadau. Anogwch nhw i ddisgrifio canlyniadau'r cwestiwn a hefyd i gynnwys unrhyw ddatganiadau neu farn allweddol. Er enghraifft, "O'r xx o ddynion a atebodd y cwestiwn 'Ydych chi'n credu y gallech fod yn rhoddwr mêr esgyrn?", atebodd yy "Ydw" a zz "Na". Rhai o'r rhesymau dros wrthod oedd...'

Yn Nhaflen gwaith 3 ceir templed i helpu'r myfyrwyr gofnodi eu casgliadau.

Lawrlwytho

Cynnal tri i bedwar sesiwn

Sesiwn tri: Dadansoddi canlyniadau'r arolwg
(Parhad)

Gweithgaredd i'r dosbarth cyfan (20 Munud)

- Oes yna unrhyw ganlyniadau syfrdanol? Er enghraifft, oedd y canlyniadau'n cefnogi – neu'n gwrthddweud – unrhyw ragdybiaethau oedd gan y myfyrwyr am agweddau eu sampl arolwg? Oedd unrhyw un yn anghytuno'n gryf â'r syniad o roi? Oedd mwy na 5% yn dweud eu bod eisoes yn rhoi gwaed? Oedd mwy na 23% yn dweud eu bod eisoes yn aelodau o Gofrestr Rhoddwyr y GIG?
- Yw'r agweddau a ddatgelwyd gan yr arolwg yn cefnogi'r hyn mae'r myfyrwyr yn gwybod o sesiynau blaenorol?
- Oes gwahaniaeth amlwg yn ôl rhyw/ethnigrwydd/oed?
- Pa mor wahanol yw agweddau rhieni/teulu i rai pobl yn eu harddegau?
- Pa ddull ymchwil ymddengys i fod fwyaf effeithiol (cyfweliadau, holiaduron i'w cwblhau gan yr unigolyn)?
- Beth yw'r agwedd fwyaf pendant tuag at roi gwaed?
- Yw pobl yn teimlo'n fwy hyderus am roi gwaed neu fêr esgyrn nag am roi organ neu feinwe?
- Beth yw rhai o'r prif bryderon a chwestiynau a godwyd gan y grŵp sampl?

Casgliadau (10 Munud)

- Gofynnwch i'r myfyrwyr feddwl am un o gasgliadau'r arolwg; efallai' r un oedd fwyaf diddorol neu syfrdanol iddynt. Beth yw oblygiadau hyn ar gyfer rhoi yn y dyfodol?
- Gofynnwch i'r myfyrwyr ddweud tri pheth wrthych nad oeddynt yn gwybod am roi cynt ond eu bod yn gwybod nawr.
- Ydynt yn teimlo'n wahanol am y mater nawr na chyn dechrau'r prosiect?

Cynnal tri i bedwar sesiwn

Taflen gwaith 3 – Dadansoddi canlyniadau'r arolwg

Cwblhewch y daflen hon i helpu dadansoddi canlyniadau'r holl ddata a gasglwyd yn yr arolwg.

Dyddiad yr arolwg_____

Maint yr arolwg_____

Nifer o ddynion_____ **Nifer o fenywod**_____ **Cyfanswm**_____

Oed yr ymatebwyr
Dan 16__ 16–20__ 21–30__ 31–40__ 41–60__ Dros 60

Dewiswch dri chwestiwn o'r arolwg a rhoi crynodeb o'r canlyniadau:

Cwestiwn: _____
Ymateb:

Cwestiwn: _____
Ymateb:

Cwestiwn: _____
Ymateb:

Cynnal tri i bedwar sesiwn

Sesiwn tri: Dadansoddi casgliadau'r arolwg

(Tua un awr)

Cysylltiadau i'r Cwricwlwm

Dinasyddiaeth: Eiriolaeth a Chynrychiolaeth; Gweithredu'n wybodus a chyfrifol.

Deilliannau dysgu

- **Bydd pob myfyriwr yn:** deall y negeseuon allweddol am yr angen am roddwyr ac wedi eu cynnwys mewn cynllun ar gyfer ymgyrch.
- **Bydd y rhan fwyaf o fyfyrwyr yn:** drafftio pamffled, neu ddeunydd ymgyrchu arall ar gyfer cynulleidfa darged hefyd, gan ystyried sut i ddarparu dadleuon darbwyllol yn effeithiol.
- **Bydd rhai myfyrwyr yn:** amlinellu cynllun i weithredu eu syniadau.

Gweithgaredd agoriadol (10 Munud)

- Ailedrych ar y ffeithiau a barn mae myfyrwyr wedi dysgu o'u hymchwiliadau. A ydynt yn cytuno fod yna angen gwirioneddol i roi gwybod i gymdeithas am bwysigrwydd rhoi? Pa mor bosibl yw hi i wneud pobl yn ymwybodol o'r angen ac i weithredu?
- Pa grŵp o bobl sydd â'r angen mwyaf am wybodaeth ar roi? Pwy ellid eu hysbrydoli i droi bwriad yn weithred, e.e. rhieni, pobl yn eu harddegau, athrawon, arweinwyr cymunedol?
- Pam fod ymgyrchoedd eraill llwyddiannus, megis 'Peidiwch yfed a gyrru!' a 'Perygl Dieithryn', wedi gweithio cystal?

Gwaith grŵp (40 Munud)

- Myfyrwyr yn nodi eu cynulleidfa darged ac yn ysgrifennu ychydig eiriau allweddol fel proffil. Er enghraifft, efallai mai eu cynulleidfa darged fydd gadawyr ysgol. Sut fyddant yn eu disgrifio? Beth yw eu diddordebau? Beth allai ddenu eu diddordeb?
- Cynlluniwch sut fyddai'r ffordd orau o 'gyrraedd' y gynulleidfa darged. A fyddant yn ymateb yn dda i ymgyrch hysbysebu neu ddrama, neu a fyddai creu ffilm fer yn fwy effeithiol?
- Mae Taflen gwaith 4 yn cynnwys ffeil o ffeithiau y gall myfyrwyr ddefnyddio i'w helpu i ysgrifennu llythyr at olygydd papur newydd lleol yn annog darllenwyr i feddwl am roi. Dylent ddefnyddio naws ddarbwyllol a geiriau a brawddegau pryfoclyd.
- Pa negeseuon allweddol mae myfyrwyr eisiau gyfleu i'w cynulleidfa darged?
- Erbyn diwedd y sesiwn, dylai myfyrwyr fod â chynllun cyffredinol ac o bosibl rhywfaint o ddeunydd drafft cyntaf megis taflen, slogan gryf, llythyr neu fwrdd stori ar gyfer hysbyseb neu ddrama.

Casgliadau (10 Munud)

- Myfyrwyr yn rhoi sylw ar syniadau drafft eu gilydd.
- Os oes un neges allweddol yr hoffai myfyrwyr i bawb ei chlywed ynglŷn a rhoi gwaed, organau, meinwe neu fêr esgyrn, beth fyddai honno?

Gweithgaredd estyniad/gwaith cartref

- Efallai yr hoffai rhai o'r myfyrwyr weithredu eu gwaith cynllunio naill ai mewn gwasanaeth ysgol neu rhyw fodd arall, er enghraifft trwy wneud ffilm fer.

Cynnal tri i bedwar sesiwn

Taflen gwaith 4 – Lledaenu'r gair

Ffeil o ffeithiau

- Mae angen cyson am waed, ond dim ond 5% o boblogaeth y Deyrnas Unedig a all roi gwaed sy'n gwneud.
- Mae'r nifer o bobl sydd angen trawsblaniad organ yn llawer mwy na'r nifer o organau sy'n cael eu rhoi.
- Yn y Deyrnas Unedig, mae pobl yn dal i farw tra'n aros am drawsblaniad mêr esgyrn.
- Rheswm mawr dros y prinder o organau yw fod llawer o bobl heb gofnodi eu dymuniadau am roi neu ei drafod gyda'u teuluoedd.

Ffeil o ffeithiau

Ysgrifennwch lythyr at olygydd eich papur newydd lleol i berswadio'r darllenwyr i roi gwaed, ymuno â chofrestr mêr esgyrn neu ymuno â Chofrestr Rhoddwyr y GIG. Defnyddiwch un neu fwy o'r ffeithiau a defnyddio brawddegau darbwyllol.

Annwyl olygydd